

PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 7 MAWRTH 2017

Yn
bressenol: Cynghorydd Richard Cook (Cadeirydd),
Y Cynghorwyr Boyle, Gordon, Murphy a/ac Dianne Rees

Aelodau Cyfetholedig: Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig), Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru) a/ac Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr)

61 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorwyr Chaundy, Joyce, Thorne a Karen Dell'Armi.

62 : DATGAN BUDDIANNAU

Dyweddodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod ganddynt gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol wrth i'r eitem berthnasol agor.

63 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2017 ac 13 Chwefror 2017 fel cofnod cywir.

64 : CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Rhoddodd yr adroddiad gyfle i'r Pwyllgor adolygu a gwerthuso'r adroddiad cabinet drafft ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020, a oedd yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Gwnaethpwyd mân-ddiwygiadau pellach i'r Strategaeth a fyddai'n cael eu trafod yn ystod y cyfarfod. Byddai'r Strategaeth, ac unrhyw sylwadau'r Pwyllgor, yn cael eu hystyried gan y Cabinet ar 16 Mawrth 2017.

Bydd y Cynghorydd Sarah Merry, Aelod Cabinet dros Addysg yn gwneud datganiad.

Eglurodd y Cynghorydd Merry y byddai Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd Caerdydd yn trafod y cyfnod 2017-2020. Roedd Cynllun Addysg cyfrwng-Cymraeg Llywodraeth Cymru wedi ategu at y cynllun, ynghyd â datganiadau polisi a strategaeth drafft Llywodraeth Cymru. Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Rhoddodd Nick Batchelar wybod mai nod y strategaeth oedd ategu at y Fforwm Addysgu Cymraeg a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Roedd gan Fframwaith Llywodraeth Cymru yr un blaenoriaethau â'r Cyngor. Roedd hwn yn ymrwymiad dinas gyfan oedd yn cynnwys cynllunio lleoedd mewn ysgolion. Byddai gweledigaeth y Cyngor yn datblygu ac yn hyfforddi arweinyddiaeth i'r dyfodol o ran addysg cyfrwng Cymraeg.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Roedd aelodau'r Pwyllgor braidd yn bryderus bod llawer o bobl o leiafrifoedd ethnig yn byw mewn rhai ardaloedd o Gaerdydd yn mynychu ysgolion cynradd, ac y byddai gorfodi'r iaith Gymraeg ychydig yn anodd i'w weithredu.

Nododd y Swyddogion bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo, ond ei bod yn cael ei gydnabod yn her. Roedd Caerdydd yn cael ei chydabod yn lle amlieithog oherwydd ei hystod o ieithoedd mewn ysgolion a'r ffordd yr oedd hyn yn cael ei weithredu i gefnogi'r holl ieithoedd.

Bu i'r Pwyllgor gydnabod y cynnydd yr oedd Caerdydd wedi'i wneud, gan ofyn a oedd Uned Trochi Cymraeg yn cael ei sefydlu. Roedd Unedau Trochi Saesneg yn cefnogi plant oedd yn dysgu Saesneg mewn ysgolion ar hyn o bryd, a byddai sefydlu Uned Trochi Cymraeg yn cefnogi ac yn gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Cafodd y Pwyllgor wybod am y defnydd effeithiol o unedau trochi, a sut roedd hyn yn cefnogi datblygiad plentyn. Cydnabuwyd hefyd bod canran sylweddol o blant yn dewis siarad Saesneg gartref yn hytrach na Chymraeg. Roedd galw mawr am Unedau Trochi gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn bethau cost-effeithiol.

Roedd aelodau'r Pwyllgor o'r farn nad oedd plant sy'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol gynradd yn defnyddio'r iaith llawer yn yr ysgol uwchradd na'n hwyrach ymlaen mewn bywyd. Roedd defnyddio'r Gymraeg ar ôl ysgol yn hanfodol i gefnogi'r agenda hwn a gwella niferoedd y siaradwyr Cymraeg.

Trafododd y Pwyllgor y dull o ddysgu Cymraeg. Roedd clybiau ar ôl ysgol a darpariaethau allanol yn cefnogi'r iaith yn ychwanegu gwerth i'r cynnydd. Roedd ychydig o bryder hefyd ynghylch niferoedd y disgyblion yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg gan nad oedd rhai ysgolion, er enghraifft Bro Edern, wedi cyrraedd eu capasiti'n llawn.

Eglurodd y Swyddogion bod presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyson gydag ysgolion eraill. Roedd grwpiau blwyddyn uwch yn llenwi ac roedd y Cyngor yn hyderus y byddai'r ysgolion yn llawn.

Cyfeiriwyd y Pwyllgor tuag at "Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus:

- Swyddi Arwain
- Ymarferwyr Addysgu
- Ymgysylltiad Myfyrwyr

Datblygwyd y Deilliant i ddenu addysgu cyfrwng Cymraeg.

Cafodd yr aelodau wybod bod elfennau ar y cyllid pellach i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i drafod. Fodd bynnag, nodwyd bod cefnogaeth o ran addysgu'n ymwneud â Mathemateg hefyd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

65 : POLISI DERBYN I YSGOLION

Cafodd y Pwyllgor wybod bod yr adroddiad drafft yn rhoi cyfle i adolygu a gwerthuso'r adroddiad cabinet drafft yn ceisio cymeradwyaeth i'r Polisi Derbyn i Ysgolion ynghyd â manylion am y derbyn i ysgolion ffydd cydlynol prawf. Gwnaethpwyd mân

ddiwygiadau pellach i'r Polisi a fyddai'n cael eu hystyried yn y Cabinet ar 16 Mawrth 2017.

Bydd y Cynghorydd Sarah Merry, Aelod Cabinet dros Addysg yn gwneud datganiad.

Eglurodd y Cynghorydd Merry bod dwy elfen ar yr adroddiad hwn. Adolygiad blynyddol Trefniadau Derbyn i Ysgolion y Cyngor 2018/19 a'r gweithrediad arfaethedig Trefniadau Cydlynol Derbyn i Ysgolion Uwchradd ar gyfer y cyfnod 2018-2020.

Amlygodd Nick Batchelar yr Adolygiad Blynyddol a'r Polisi Derbyn. Yn rhan o'r ymgynghoriad, derbyniwyd barn ac argymhellion penodol gan gynghorwyr ward lleol, yn benodol bod Meini Prawf Derbyn yn cynnwys pa mor hir y mae preswylwyr wedi byw mewn ardal. Nid oedd y dadansoddiad yn cynnwys unrhyw dystiolaeth o gamddefnyddio'r system. Efallai y bydd sefyllfaoedd unigryw'n datblygu drwy gynigion Band B ac y byddai'r cap cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r adroddiad yn cael eu cynhyrchu ar ddechrau'r hydref.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Holodd y Pwyllgor gan fod y Cynllun Datblygu Lleol ar waith a fyddai modd ystyried archwiliad pellach o'r ardal ddalgylch, yn rhan o Argymhelliad 2. Mewn ymateb, nododd y Swyddogion y gallai'r awgrymiad fod yn rhan o Argymhelliad 2.

Holodd aelodau'r Pwyllgor a fyddai'r Polisi Derbyn yn amodol ar newid ar ôl yr ymgynghoriad, ac os felly, a fyddai modd ymgorffori'r newid. Roedd hyn mewn perthynas â pha mor hir oedd pobl wedi byw mewn ardal yn hytrach nac agosatwydd at ysgol.

Eglurodd y Swyddogion y broses ymgynghori'n fanwl, a'r newidiadau sylweddol all gael eu gweithredu, a fyddai o bosibl yn arwain at ganlyniadau amgen. Ni fyddai cyflwyno maen prawf "cyfnod yn byw yn yr ardal ddalgylch" yn cael ei gydnabod fel arfer gorau, ac roedd wedi'i amlinellu yng Nghod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Trafodwyd y Meini Prawf Derbyn i Ysgolion. Cydnabuwyd bod mwy o ddisgyblion yn dod i addysg uwchradd nac erioed, ac roedd llai o leoedd ar gael i'w cynnig hyd yn oed i ddisgyblion yr ardal ddalgylch.

Parhaodd aelodau'r Pwyllgor i ymchwilio i'r posibilrwydd o'r meini prawf yn bod yn seiliedig ar hyd y preswylfa yn hytrach nac agosatwydd, fel yr amlinellir yn Argymhelliad 2 yr Adroddiad Cabinet.

Cyfeiriodd y Swyddogion at God Llywodraeth Cymru. Roedd amcanion clir wedi'u gosod ar gyfer y Meini Prawf. Roedd yr awgrymiad o hyd yn hytrach nac agosatwydd yn rhesymol a byddai angen ei werthuso'n fanwl.

Nododd y Pwyllgor bod Ysgol Uwchradd Caerdydd yn ehangu i fod yn ysgol ag 8 dosbarth mynediad. Byddai'r derbyniadau Marlborough yn cefnogi'r 8 dosbarth mynediad ac o ganlyniad i'r galw hwn, roedd darpariaeth ychwanegol wedi'i darparu a'i cyfuno.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

66 : PERFFORMIAD ADDYSG CHWARTER 3 A CHAERDYDD 2020 – 'ANELU AT RAGORIAETH'

Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth ar berfformiad corfforaethol i'r Pwyllgor ar gyfer chwarter cyntaf 2015/16 a diweddariad ar Caerdydd 2020 – Anelu at Ragoriaeth. Byddai'r eitem yn cael ei thrafod mewn dwy ran, yr Adran Perfformiad Corfforaethol, ac yna Caerdydd 2020.

Cyfeiriwyd y Pwyllgor at Gerdyn Sgorio Chwarter 3 2016/17. Roedd gwelliant sylweddol yn amlwg ond roedd ychydig o bryder o ran y ffigyrau absenoldeb salwch.

Nododd y Swyddogion bod ffigyrau absenoldeb salwch yn uwch mewn timau arlwyio. Roedd yr holl reolwyr yn y maes hwnnw'n defnyddio'r Polisi Absenoldeb Salwch pan roedd y trothwyon yn cael eu cyrraedd.

Cafodd strategaeth Caerdydd 2020 ei lansio gyda phartneriaid ar 29 Mehefin 2016. Cadeiriwyd y Bwrdd Datblygu Addysg gan Rod Alcott. Roedd hwn yn fwrdd partneriaeth o dan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, ac roedd ganddo ffocws penodol ar addysg a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd.

Roedd datblygu rhaglenni a llwybrau Arwain yn hanfodol, a chawsant eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriwyd at ddeilliannau delfrydol Caerdydd 2020, ynghyd â'r prif fesurau oedd ar waith.

Trafodwyd safle'r Consortiwm, gyda buddsoddiad parhaus yn cael ei roi i addysg er mwyn cefnogi'r adnodd.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i holi cwestiynau.

Cyfeiriwyd y Pwyllgor at ddeilliannau delfrydol Caerdydd 2020 a'r prif fesurau, gyda chymorth anghenion dysgu ychwanegol ar sail ranbarthol ehangach.

Trafododd aelodau'r Pwyllgor y sefyllfa gyda lefelau salwch a'r amser y dylai plentyn aros i ffwrdd o'r ysgol pan roedd y salwch yn heintus.

Nododd y Swyddogion bod data absenoldeb salwch yn cynyddu. Roedd Polisi Llesiant Ysgolion Caerdydd ar waith i gefnogi hyn ynghyd â Pholisi Absenoldebau Salwch y Cyngor.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i weld y Data Dangosydd Perfformiad mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal. Mewn ymateb, rhoddodd y Swyddog sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai gwybodaeth ar Blant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei darparu. Byddai tystiolaeth ar gael i gefnogi hyn fel rhan o Gaerdydd yn ategu ei swyddogaeth Rhiantu Corfforaethol.

Trafododd aelodau'r Pwyllgor dudalen 246 yr adroddiad gan holi pam nad oedd y data ar waelodlin y proffil Cyfnod Sylfaen newydd, a oedd yn asesu gallu plant wrth fynd i mewn i'r ysgol, ar gael o ystyried ei fod wedi'i gasglu am y tro cyntaf yn yr Haf?

Cadarnhaodd Nick Batchelar y byddai'r wybodaeth yn cael ei gwirio a'i hanfon ymlaen at y Pwyllgor.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar wybodaeth plant nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) ar gyfer 2014/15:

- Data dangosol 3.1%
- 4.5% y llynedd.
- Data heb ei ddilysu wedi'i leihau traean.

CYTUNWYD – Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor i'r Aelod Cabinet i gyfleu eu sylwadau a'u barn.

67 : CAMFANTEISIO'N RHYWIOL AR BLANT – ADRODDIAD CYNNYDD

Cafodd y Pwyllgor wybod bod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y cynnydd oedd yn cael ei wneud i weithredu argymhellion y Pwyllgor hwn ar ôl ei Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

Croesawodd y Cadeirydd Tony Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Jan Coles i'r cyfarfod.

Cafodd y Pwyllgor wybod am y ffrydiau gwaith oedd yn cael eu gweithredu i gefnogi'r broses. Roedd y Strategaeth Atal CRhB a'r cynllun gwaith yn crybwyll 13 argymhelliad y Pwyllgor ond hefyd yn nodi camau ac amserlenni dan bump prif nod, sef:

- Deall
- Codi Ymwybyddiaeth
- Adnabod
- Cefnogi
- Atal ac erlyn

Clywodd y Pwyllgor sut roedd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r Strategaeth Atal CRhB ynghyd â'r Grŵp Buddiannau CRhB. Roedd gwaith yn mynd rhagddo mewn ysgolion yn y ddinas i godi ymwybyddiaeth a rhoi cyngor a chymorth os oedd angen. Roedd economi'r nos hefyd yn rhan hanfodol o'r broses ac roedd gwaith yn cael ei wneud gyda gyrwyr tacsis i rannu gwybodaeth ar GRhB.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn bryderus am blant yn defnyddio tacsis a gwrthod siwrneiau, a materion presennol yn digwydd yn y ddinas. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddogion bod negeseuon yn cael eu rhannu gyda phob sefydliad yn gweithio yn economi'r nos ynghyd â materion difrifol. Roedd gwaith hefyd yn digwydd gyda'r Gwasanaethau Ieuenctid a staff GIG i nodi ac adnabod meysydd o bryder. Roedd angen mwy o waith gyda gwestai'r ddinas i godi ymwybyddiaeth ac ar sut roedd dulliau adrodd yn cael eu cefnogi.

Roedd y Swyddfa Gartref wedi ymweld â Chaerdydd yn rhan o'r Gweithgor Cenedlaethol a chafwyd adborth positif.

Cafodd y Pwyllgor wybod bod yr holl gymunedau a'r grwpiau'n cael eu hannog i gymryd rhan yn y broses. Roedd hyn yn ymwneud ag adeiladu a datblygu hyder er mwyn croesawu diogelu ac amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

68 : ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 3 GWASANAETHAU PLANT

Roedd Tony Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y gwybodaeth berfformiad ar gyfer trydydd chwarter 2016/17. Efallai y byddai'r aelodau'n dymuno gofyn i'r Swyddog am berfformiad, ynghyd â chamau rheoli i daclo meysydd perfformiad gwael.

Cafodd y Pwyllgor wybod bod Perfformiad yn ystod Chwarter 3 yn gymysg, gyda gwelliannau mewn rhai meysydd. Roedd newidiadau mawr wedi'u gwneud wrth gyflwyno'r Hyb Cymorth Aml-asiantaethol (MASH) a chyflwyniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Roedd cynnydd da yn cael ei adrodd a'r gweithlu'n dechrau cysoni.

Cafodd aelodau'r Pwyllgor wybod nad oedd unrhyw faterion sylweddol mewn perthynas â recriwtio a chadw. Bu ychydig o broblemau o ran recriwtio staff profiadol, ond roedd hyn yn broblem cenedlaethol.

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth ar Oedolion Ifanc a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Trafodwyd y mater o gost o ran "lleoliadau y tu allan i'r sir" a'r lleoliadau oedd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

Cydnabuwyd bod materion mewn perthynas â lleoliadau "y tu allan i'r sir" a'r her o ddod â phlant yn agosach i'w teuluoedd. Un o'r prif yrwyr oedd sicrhau bod plentyn yn cael ei leoli'n briodol a bod lefel cyswllt priodol yn cael ei gynnal gyda'r teuluoedd.

Trafododd y Pwyllgor y broses oedd ar waith wrth ddelio â phontio unwaith y mae plentyn yn cyrraedd 18 oed. Roedd darpariaeth ar gael i gefnogi hyn, fodd bynnag, cydnabuwyd nad oedd ar cymaint o blant angen y cyfleuster hwn.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

69 : ADRODDIAD GRŴP GORCHWYL ANFFURFIO ORGANAU CENHEDLU BENYWOD (FGM)

Derbyniodd y Pwyllgor yr Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen i Anffurfio Organau Cenedlu Benywod (FGM).

Nododd Gadeirydd yr Ymchwiliad, y Cynghorydd Dianne Rees, ganfyddiadau'r adroddiad.

Nid oedd Caerdydd yn perfformio'n dda iawn wrth adnabod FGM, a'r rhesymau dros hynny oedd diffyg data. Roedd hyn yn broblem cenedlaethol oedd yn cael ei drafod ar hyn o bryd. Roedd cyllid hefyd yn broblem, a gobeithir y byddai'r cyllid yn parhau.

Trafododd y Pwyllgor y materion meddygol cymhleth oedd yn ymwneud â FGM a'r effeithiau seicolegol. Roedd addysgu benywod mewn cymunedau'n hanfodol er mwyn mynd ar ôl y mater ac amlygu'r pryderon i bob cymuned. Roedd rhannu data'n hanfodol i gefnogi cynnydd ac i rannu'r neges na fyddai hyn yn cael ei oddef.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor ar yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cabinet.

70 : ADRODDIAD GRŴP GORCHWYL TYMHORAU YSGOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yr Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen i dymhorau Ysgolion. Nod yr Ymchwiliad oedd edrych i mewn i newid tymhorau ysgolion gyda golwg o leihau gwyliau'r haf er mwyn creu wythnos ychwanegol o wyliau rhywle arall yng nghalendr yr ysgol.

Trafododd y Pwyllgor ganfyddiadau'r adroddiad a'r argymhellion i'r Cabinet.

PENDERFYNWYD: CYTUNWYD – CYTUNODD y Pwyllgor ar yr adroddiad.

71 : ADRODDIAD BLYNYDDOL

Derbyniodd y Pwyllgor ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17.

Croesawodd y Pwyllgor eu Hadroddiad Blynyddol gan nodi'r eitemau y dylid ystyried eu cynnwys yn ei raglen waith.

Awgrymodd aelodau'r Pwyllgor y dylid cynnwys Effaith Trais Domestig ar Blant yn y rhaglen waith.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor ar yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor.

72 : ADRODDIAD GOHEBIAETH

Derbyniodd y Pwyllgor gan nodi ei Wybodaeth Gohebiaeth.